

Theatr Clwyd

CYNORTHWY-YDD GWERTHIANT

Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug

Contract Tymor Penodd

10 Awr

Graddfa TC05 - SCP 4-7

(Cyflog o £18,426 - £19,554 pro-rata)

Cychwynor Unwaith tan y 31ain o Ionawr 2021

Mae Theatr Clwyd wedi bod yn theatr gynhyrchu fwyaf blaenllaw Cymru ers 1976 ac mae'r Cyfarwyddwr Artistig Tamara Harvey a'r Cyfarwyddwr Gweithredol Liam Evans-Ford yn arwain y theatr drwy gyfnod o newid cyffrous, gan adeiladu ar ragoriaeth a balchder y gorffennol i greu canolfan ddeinamig a chreadigol ar gyfer y celfyddydau yn y dyfodol.

Mae'r Adran Gweithrediadau'n gyfrifol am swyddogaethau logisteg yr adeilad. Yn rhan greiddiol iddi mae hybu a chynnal profiad rhagorol i'r gynulleidfa a sicrhau bod Theatr Clwyd yn amgylchedd croesawus a diogel i'r cyhoedd, artistiaid sy'n ymweld, a staff.

Rydyn ni'n chwilio am ymgeisydd gyda phrofiad ar gyfer swydd sy'n delio â chwsmeriaid. Bydd y swydd yn sicrhau bod y swyddogaeth gwerthiant yn y theatr yn gweithredu i lefel uchel o effeithlonrwydd ac ansawdd ac yn sicrhau gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid bob amser.

Y patrwm gwaith yn bennaf fydd nos Fercher i nos Wener a phrynhawn/gyda'r nos Sadwrn. Hefyd bydd amseroedd pryd bydd angen gweithio oriau eraill, er mwyn helpu i gefnogi digwyddiadau mawr.

Am drafodaeth anffurfiol, cysylltwch ag:

Enw: Marie Thorpe

Teitl Swydd: Rheolwr Gwerthiant

Ffôn: 01352 701528